Ysgol Gymraeg Llechyfedach
Heol Bethania
Tymbl Uchaf
LLANELLI
SA14 6DT

thom-samun@hwbcymru.net
01269 841385

Annwyl Rieni/Warcheidwaid

Mae'n bleser mawr gen i eich croesawu fel darpar rieni i'r ysgol hyfryd yma. Cyflwynaf i chi Brosbectws yr Ysgol gyda balchder yn y gobaith y bydd o ddiddordeb ac o fudd, ac yn fwyaf arbennig yn gymorth i dawelu unrhyw ofnau neu amheuon sydd gennych ynglyn â danfon eich plentyn i'r ysgol. Hyderaf y gwnawn ein gorau i sicrhau y bydd eich plentyn yn cael pob cyfle i ddatblygu i'w lawn botensial yn addysgiadol ac yn gymdeithasol.

Mae mynd i'r ysgol am y tro cyntaf yn gam mawr iawn ym mywyd eich plentyn ac i chwithau hefyd. Rydym eisiau gweld y pontio hwn o'r cartref i'r ysgol neu o ysgol i ysgol yn digwydd mor rhwydd â phosib. Taer ddymunwn bydd y prosbectws hwn o gymorth; fodd bynnag, nid oes yr un prosbectws a all ateb eich holl gwestiynau, felly dewch i ymweld â'r ysgol gyda'ch plentyn a gweld drosoch eich hun pa mor hapus y mae'r plant a pha mor dda y maent yn gweithio gyda'u hathrawon.

Rydym yn falch iawn o'n disgyblion. Bob blwyddyn daw llawer o ymwelwyr i'r ysgol ac yn aml maent yn dweud wrthym iddynt sylwi ar ymddygiad da ein disgylbion, a pha mor gwrtais ydynt. Mae'r ysgol yn falch o'i henw da, am iddi fwrw gofal dros bob plentyn yn unigol, o ran lles y disgyblion a'r ddarpariaeth addysgol.

Mae'r cyfleusterau a'r cyfleoedd dysgu estynedig a gynigir yn yr ysgol yn ardderchog ac mae'r nifer o weithgareddau a gynigir i'r disgyblion yn sicrhau eu bod yn dod yn ddysgwyr gydol oes effeithiol.

Mae'r ysgol yn derbyn sawl cais am gyngor ar sut i baratoi plant ar gyfer y trosglwyddiad hwn. Rwy'n gobeithio bod yr awgrmiadau canlynol yn ddefnyddiol. Maent ymhell o fod yn gynhwysfawr ac rwy'n siŵr y gallwch chwithau hefyd ychwanegu syniadau gwerthfawr eich hun. Mewn partneriaeth, rwy'n siŵr y gallwn roi i'ch plentyn y cychwyn gorau i fywyd yn yr ysgol hon.

- Paratowch eich plentyn ar gyfer cychwyn yn yr ysgol
- Rhowch bob anogaeth i'ch plentyn ym mhob peth y mae'n bwriadu ei wneud. Mae pob gwaith ymchwil wedi profi y tu hwnt i amheuaeth bod y cartref lle ceir cariad, diddordeb, sefydlogrwydd ac anogaeth barhaus yn cyfrannu mwy at gynnydd addysgol plentyn nag ungrhyw ffactor arall.
- Sicrhewch fod eich plentyn yn gallu gwisgo'i hun ac yn gallu cyfleu ei anghenion
- Gwnewch yn siŵr fod eich plentyn yn dod i'r ysgol gyda meistrolaeth dda o iaith.
- Siaradwch gyda'ch plentyn yn gyson, darllenwch iddo/iddi bob dydd a dysgwch hwiangerddi a chaneuon iddo/iddi.
- Gwnewch ymdrech i fynychu cyfarfodydd ysgol a drefnir ar gyfer rhieni.
- Sicrhewch fod eich plentyn yn dod i'r ysgol yn lân ac wedi ei wisgo'n briodol.
- Sicrhewch fod gan eich plentyn ffydd ac ymddiriedaeth yn ei athro/athrawes.

- Codwch o'r gwely'n ddigon cynnar i roi cychwyn tawel a threfnus i'r diwrnod. Cofiwch fod brecwast da yn hanfodol er mwyn iddynt ddyfalbarhau a chanolbwyntio drwy gydol y bore. Defnyddiwch y Clwb brecwast yn yr ysgol.
- Mae'n rhaid i ysgol fod yn deg gyda phob un disgybl felly peidiwch â gofyn am driniaeth arbennig.
- Dewch i drafod unrhyw bryderon gyda'r athrawon dosbarth hyd yn oed os ydych o'r farn eu bod yn rhai pitw.
- Rhowch enw eich plentyn ar y wisg ysgol.
- Yn olaf, peidiwch ag ymuno gyda 'senedd mynedfa'r ysgol'! Os ydych yn anhapus ag unrhyw agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol byddaf yn fwy na pharod i drafod y mater gyda chi.

Rwyf o'r farn y bydd i ni gyflawni'r gorau ar gyfer eich plentyn yn unig drwy gydweithrediad agos rhwng y cartref a'r ysgol. Heb gynnwys rhieni yn y gwaith hwn, mae ein tasg yn llawer mwy anodd ac yn llai pleserus. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn cymryd diddordeb helaeth yn yr hyn y mae eich plentyn yn ei wneud yn yr ysgol ac y byddwch yn ei annog i wneud pob ymdrech i ddysgu a phwysigrwydd hyn yn ddiweddarach mewn bywyd.

Rydym yn edrych ymlaen at eich tywys o gwmpas yr ysgol, fel y gallwch ganfod yr ethos tawel, cyfeillgar ac ysgogol drosoch eich hun.

Yn gywir iawn
Mrs. N. Thomas-Samuel
Pennaeth Gweithredol Ffederasiwn Ysgolion Cymraeg Llechyfedach a'r Tymbl

## *STAFF*

**Pennaeth Gweithredol:** Mrs. Neris Thomas-Samuel
thom-samun@hwbcymru.net

**Pennaeth Cynorthwyol**: Mrs Catrin Nicholas

**Athrawon eraill**

| | |
|---|---|
| Mrs. Kelly Howells | Mrs. Yolande Morgan |
| Mrs. Bethan Parry | Mrs Nerys Walters |

**Cynorthwywyr Dosbarth**

| | |
|---|---|
| Miss Sian Davies | Miss Chloe Griffiths |

| | |
|---|---|
| | |

Mae **athrawon teithiol** yn cynorthwyo gyda gwersi offerynnau cerddorol.
Mae **athrawon gwella'r Gymraeg** yn ymweld yn ystod cyfnodau o'r flwyddyn.

**Gofalydd a Glanheuwraig**
Mrs Sheena Beynon-Thomas

**Cogyddes**
Mrs. Sian Griffiths

**Staff arlwyo eraill**
Mrs. Sarah Thomas

**Goruchwylwyr amser cinio**

| | |
|---|---|
| Mrs Carol-Anne Evans | Miss Tina Davies |
| Miss Nikky Evans | Mrs Donna Flint |

**Ers Tachwedd 2015, mae Ysgol Gymraeg Llechyfedach wedi ei ffedereiddio gydag Ysgol Gymraeg Y Tymbl. Mae un CORFF LLYWODRAETHOL i'r ddwy ysgol.**

**Cadeirydd** Mrs Angharad Price
**Is-gadeirydd** Ms Julie Thomas
**Aelodau eraill**

| | |
|---|---|
| Dr A Clement | Ms J Thomas |
| Mrs N Thomas-Samuel | Cllr Nigel Thomas |
| Mrs C Nicholas | Miss Sian Rowe |
| Miss Chloe Griffiths | Mrs Catherine Evans |
| Dr A Clement | Mrs C Rees |
| Mrs A Gealy | Mrs Jane Williams |
| Cllr Ruth Davies | Mrs T Davies |
| Mrs Tina Davies | Miss C Rees |
| Mrs A Price | |

**Clerc i'r Llywodraethwyr**

Mr Steven Hewitt, Swyddog Cynnal Ysgolion

## *Ein Gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru*

**“Meithrin llwyddiant, bywyd llon”**

Dyma yw arwyddair Ffederasiwn Ysgolion Cymraeg Llechyfedach a’r Tymbl. O’r ychydig eiriau yma, ymwreiddir yr ymdeimlad o hunan-barch ac hunan-lwyddo ar gyfer lles ac addysg pob dysgwr ac ymarferwr.

Ffocysir ar adnabyddiaeth holistaidd o **bob** unigolyn er mwyn creu balchder a pharch boed hy nny’n lleol neu thu hwnt, gan feithrin gwreiddiau cadarn a chadarnhaol ar gyfer eu dyfodol.

Sicrheuir ethos cynhwysol i ddatblygu pob un yn ddysgwr uchelgeisiol ac hyderus.
Datblygir yr hunanwerth a meithrin perthnasoedd iach, llwyddiannus ac effeithiol.
Ymwreiddir balchder o’r Iaith Gymraeg a’r diwylliannau sydd ynghlwm â’n cymunedau a Chymru gyfan.
Drwy annog gwytnwch disgyblion a chynnig profiadau ymestynnol a chreadigol, ystyriir yn holistaidd yr hapusrwydd, ymroddiad a chynnydd pob rhanddeiliad.
Ymwreiddir y
broses ddysgu drwy gydnabod camgymeriadau, i feithrin dyfalbarhad a chryfhau eu cred yn eu galluoedd unigol.
Bydd yr ymarferwyr yn effro i anghenion amrywiol y dysgwyr a sicrheuir bod yma amgylchedd ddysgu diogel.
Uchefir ar gydweithio meistrolgar ar bob lefel er lles a datblygiad y dysgwr a’r ymarferwr.

## *NÔDAU*

- Creu awyrgylch hapus sy’n hybu datblygiad meddyliol, emosiynol, corfforol, cymdeithasol ac ysbrydol pob plentyn i’r eithaf posib.
- Meithrin ymhob plentyn yr awydd i ddysgu a chynyddu ei wybodaeth.
- Cynnig cyfleoedd i bob plentyn ddatblygu i’w lawn botensial drwy rhaglen eang o brofiadau cyffrous, diddorol a pherthnasol.
- Meithrin hunan-barch a pharch at eraill gan ddatblygu agweddau a gwerthoedd cadarnhaol.

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad i gwricwlwm a rhaglenni dysgu eang a chytbwys.

- Datblygu sgiliau iaith yn ei amrywiol ffurfiau, er mwyn i'r plant allu cyfathrebu'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys gwrando a siarad, darllen ac ysgrifennu.

- Datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth cadarn o gysyniadau rhif.

- Creu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad plentyn o'i gymuned, iaith, traddodiadau, a'r amgylchedd.

- Creu ymwybyddiaeth o'r angen am lendid personol, ymddangosiad, cwrteisi, moesau ac ymddygiad da.

- Meithrin cysylltiadau agos rhwng yr ysgol, y cartref a'r gymuned.

## *CYFLE CYFARTAL*

Bwriadwn greu yn yr ysgol, gyfle cyfartal i bob plentyn heb ragfarnu yn ôl lliw, crefydd, diwylliant, cenedl, oedran, gallu, anabledd, rhyw, hil na chefndir. Dymunwn i bob plentyn gyrraedd ei lawn botensial yn ystod ei amser gyda ni. Felly, sicrhawn bod ein disgwyliadau, agweddau ac arferion yn galluogi pob plentyn i lwyddo.
Mae polisïau'r ysgol megis Polisi Cyfle Cyfartal, Datganiad Cydraddoldeb i'r Anabl a Chynllun Hygyrchedd (Accessibility Plan) yn gosod ein nôd fel ysgol yn glir. Ymrwymwn i ddarparu addysg o'r safon uchaf posibl i bob disgybl a byddwn yn ceisio diwallu anghenion pawb heb unrhyw fath o wahaniaethu annhêg.

## *IECHYD A DIOGELWCH A THREFNIADAU DIOGELU*

Mae polisïau a threfniadau yn eu lle i sicrhau bod Iechyd a Diogelwch y disgyblion a'r staff yn cael y flaenoriaeth uchaf posib. Mae cloeon diogelwch ar y drysau. Mae'r rhain y natal mynediad heb awdurdod o'r tu allan ac yn caniatau allanfa hawdd mewn argyfwng. Ofynnir i ymwlewyr gydweithredu drwy:-

- gyflwyno eu hunain wrth y brif dderbynfa
- fyned i'r ardaloedd addysgu gyda chaniatâd y Pennaeth yn unig

Rydym fel staff yn cydnabod yn llawn y cyfraniad rydym yn ei wneud a'r dyletswydd sydd arnom i amddiffyn plant. Os bydd unrhyw aelod o'r staff yn pryderu a/neu derbyn gwybodaeth am gam-drin a/neu esgeuluso ein disgyblion, yna mae'n ddyletswydd gyfreithiol i adrodd y wybodaeth hon i swyddog amddiffyn plant dynodedig yr ysgol (Y Pennaeth neu Pennaeth Cynorthwyol yn absenoldeb y pennaeth) yn yn ei dro i'r awdurdodau priodol.

## *Amserau'r Ysgol*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Bore:** | 8:55y.b. - 12:00yp (CS) / 12:30yp (CA2) | | |
| **Prynhawn:** | 1:00yp - 3:00yp | Y Cyfnod Sylfaen | |
| | 1:30yp - 3:15yp | Cyfnod Allweddol 2 | |

Os fydd newid i'r amserau uchod, yna rhoddir gwybodaeth i'r rhieni cyn gynted â phosib.

Bydd yr athrawon ar ddyletswydd yn yr ysgol 10 munud cyn bod yr ysgol yn dechrau. Ni ddylai unrhyw blentyn fod yn yr ysgol cyn 8:45 y bore os nad ydynt yn mynychu'r Clwb Brecwast. Mae prydlondeb yn bwysig ac felly dylai pob plentyn fod yn yr ysgol cyn 8:55yb. Ar ddiwedd y prynhawn mae'n ddyletswydd ar bob plentyn adael yn syth ar ôl iddo/iddi ddod allan o'r dosbarth.

Nid oes yr un plentyn i adael yr ysgol yn ystod yr amserau agor heb ganiatâd. Os fydd rhiant am gael plentyn allan yn gynnar yna bydd angen danfon llythyr i'r ysgol neu ffonio'r ysgol.
Os fydd rhiant yn dod â'r plentyn i'r ysgol mewn car yna rhaid parcio yn ddigon clir o gatiau'r ysgol. Apeliwn ar rieni i ddefnyddio maes parcio'r pentref ar bob achlysur. Dim ond pan fod sefyllfa o argyfwng y caniateir rhieni i ddod a char i faes parcio neu iard yr ysgol.

### *Gweithredu'r Cwricwlwm*

Mae'r ysgol yn darparu ystod llawn o destunau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a lluniwyd y cwricwlwm er mwyn sicrhau dilyniant a bod cyfleoedd yn cael eu rhoi i gaffael gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd dros feysydd eang fydd yn ei dro'n paratoi disgyblion ar gyfer cyfleooedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolyn.
Mae'r cwricwlwm yn sicrhau y bydd yr holl ddisgyblion yn astudio ystod eang a chytbwys o destunau fydd yn hyrwyddo datblygiad meddyliol, corfforol, ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu ymdriniaeth drawsgwricwlaidd ar hyd llinellau thematig h.y. dewisir thema ac mae pob maes astudio yn gysylltiedig â'r thema a ddewiswyd. Trafodir a datblygir themâu gan y staff mewn cyfarfodydd rheolaidd: byddwn yn gwerthuso'n cynllunio a'r gweithgareddau a ddarperir yn gyson.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan weithredol wrth gynllunio gan bod llais y dysgwr yn ennyn diddordeb yr unigolion yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn dilyn 6 Maes Dysgu a Phrofiad Cwricwlwm i Gymru sef:-

| | |
|---|---|
| Y Celfyddydau Mynegiannol | Iechyd a Lles |
| Y Dyniaethau | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |
| Mathemateg a Rhifedd | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |

## Y FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD, RHIFEDD A CHYMHWYSEDD DIGIDOL

Mae'r ysgol yn gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a ddaeth yn ddogfen statudol o fis Medi 2013. Mae pwyslais cynyddol ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y Cwricwlwm. Mae profion statudol darllen a rhifedd i ddisgyblion Blynyddoedd 2-6 yn elfennau newydd sydd yn rhan o'n trefniadau asesu. Mae'r ysgol wedi cychwyn ar ddilyn y Fframwaith Cymhwysedd Digidol ers Medi 2016.

## ADDYSG GREFYDDOL

Mae Addysg Grefyddol yn orfodol ar gyfer yr holl disgyblion yn ystod y cyfnod pan fo'n orfodol iddynt fynychu ysgol. Gall rhieni ofyn ar i'w plant gael eu hesgusodi o fynychu'r gwersi hyn, pe bai hyn yn erbyn eu crêd. Byddwn yn ymgynnull yn y neuadd gogyfer ag addoliad ar y cŷd yn ddyddiol. Cymerir gwasanaeth ar thema grefyddol a moesol gan gymryd y ffydd Gristnogol fel syflaen. Bydd y gwasanaeth yn un di-enwadol. Cyflwynir credoau eraill i'r plant hefyd.
Amrywir patrwm y gwasanaeth ac fe fydd yr athrawon yn eu tro neu'r gwahanol ddosbarthiadau yn cymryd at yr awenau.
Os na fydd rhieni am i'w plant gymryd rhan yn y gwasanaeth bydd angen iddynt gysylltu â'r pennaeth.

Wrth gynllunio rhaglenni dysgu'n ofalus, byddwn yn rhoi pwyslais ar sicrhau **DATBLYGIAD SGILIAU** er mwyn galluogi'r disgyblion i feithrin a datblygu'r sgiliau a'r medrau angenrheidiol fydd eu hangen arnyn nhw.

Mae pwyslais yn cael ei rhoi hefyd i **ADDYSG BERSONOL a CHYMDEITHASOL.**
Caiff ein dysgwyr gyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol. Byddwn hefyd yn eu dysgu i fod yn ddinasyddion gweithgar gan hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang.

Rhoddir pwyslais hefyd ar y **CWRICWLWM CYMREIG** fel bod ein dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddysgu am nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

## TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Mae'r byd technolegol yn newid yn ddyddiol. Anelwn i gyflwyno profiadau TGCh eang i bob unigolyn gan ganolbwyntio ar y sgiiau angenrheidiol. Mae cyflenwad da o gyfrifiaduron drwy'r ysgol gyda chysylltiadau i'r rhyngrwyd. Rydym yn sicrhau bod meddalwedd addas a digonol yn y dosbarthiadau hefyd i hybu'r datblygiad o sgiliau TGCh mewn plant. Defnyddir TGCh yn helaeth ar draws y Cwricwlwm ac mae'r llwyfan digidol HWB yn fwrlwm o adnoddau dysgu effeithiol iawn.

## EIN GWELEDIGAETH TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Anelwn i ddefnyddio holl agweddau TGCh a'r Ffframwaith Cymhwysedd Digidol i symbylu, ymrwymo ac ysbrydoli disgyblion, rhieni, llywodraethwyr ac athrawon i hybu'r dysgu a'r addysgu yn a thu hwnt i gyffiniau'r ysgol. Rydym am i'n holl staff a'n disgyblion i fod yn ddefnyddwyr TGCh hyderus, cymwys ac annibynnol gyda'r gallu i addasu eu sgiliau i gwrdd a datblygiadau technolegol newydd a pharhaus.

## *TREFNIADAETH ADDYSGOL A DULLIAU ADDYSGU*

Defnyddir ystod o strategaethau addysgu ar draws yr ysgol gan gynnwys:

- Addysgu dosbarth cyfan
- Gwaith grŵp
- Gwaith pârau
- Gwaith unigol.

Mae Cynorthwywyr Dosbarth yn cefnogi disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen sydd yn galluogi'r athrawon dosbarth i gynllunio gwaith grŵp yn rheolaidd yn ogystal a sesiynau pan fo'r dosbarth i gyd gyda'u gilydd. Caiff grŵpiau o blant bach gyfleoedd cyson i gymeryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol y tu allan i'r stafell ddosbarth gan gael cyfle i feithrin sgiliau pwrpasol. e.e. chwarae rôl; chwarae yn y tywod; paentio…ag ati.

Bydd dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen yn ymuno gogyfer â sesiynau canu yn y Neuadd.

Mae tipyn o **ADDYSGU TÎM** yn cymryd lle gyda'r plant o Flwyddyn 3 i fyny at Flwyddyn 6. Er bod pob athro dosbarth yn gyfrifol am addysgu Mathemateg a Iaith i'w dosbarthiadau, trefnir yr amserlen ddyddiol i sicrhau bod defnydd yn

cael ei wneud o arbenigedd staff. Mae gwahanol athrawon yn cymryd cyfrifoldeb o gyflwyno pynciau'r cwriwcwlwm i ddosbarthiadau eraill.

Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau mae Cynorthwywyr Dosbarth sydd yn gymorth mawr i'r athrawon wrth gynllunio gwersi. Defnyddir y Cynorthwywyr i weithio gydag unigolion sy'n cael anhawster dysgu, i ddarllen gyda phlant, i rhoi cymorth cyson i blant ac hefyd i weithio gyda grŵpiau o blant tebyg eu gallu ar dasgau penodol.

Mae athrawon Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod wythnos ysgol yn tynnu plant allan o'r dosbarthiadau i dderbyn sylw manwl mewn grŵpiau bach. Byddant yn gweithio ar godi safonau'r plant yma mewn sgiliau sylfaenol gan eu bod yn blant sydd ar gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol.

Byddwn fel athrawon yn cynllunio'n ofalus i sicrhau ein bod yn cwrdd a gofynion y disgyblion i gyd o'r mwyaf galluog i'r gwanaf o rhan gallu. Felly byddwn yn sicrhau yn ein cynllunio fod y gwaith yn berthnasol ac yn wahaniaethol.

## *Defnydd o'r Gymraeg*

**Categori 3 - Ysgol Cyfrwng Cymraeg**

Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

## *Gwaith Cartref*

### CYFNOD SYLFAEN

Ar ôl cyfnod o ymsefydlu yn y dosbarth, caiff y plant bach eu cyflwyno i lyfryn llythrennau ac fe ddisgwylir iddynt gyflawni tasgau syml adref gyda chefnogaeth eu rhieni er mwyn ymgyfarwyddo a dod i adnabod llythrennau. Yn yr un modd byddant yn derbyn tasgau syml rhif. Pan fyddant yn barod cânt gardiau neu lyfrau darllen i fynd adref er mwyn bod y rhieni'n gallu rhoi cymorth a'u helpu i ddatblygu sgiliau darllen.
Bydd dilyniant a pharhad ar hyn ym Mlwyddyn 1 gyda gweithgareddau iaith a rhifedd yn cael eu rhoi I'r plant.

Disgwylir i'r rhieni wrando ar eu plant yn darllen yn gyson a chofnodi hynny ar y ffurflen briodol.
Caiff rhieni eu hannog hefyd i feithrin datblygiad eu plant trwy:

- Edrych ar lyfrau addas a'u cael i siarad am y llyfrau
- Ymweliadau cyson â'r llyfrgell
- Ymarfer ysgrifennu llythrennau'r wyddor (llythrennau bach ac i'w ffurfio yn gywir)
- Ymarfer rhif gan osod y pwyslais ar ffurfio ffigurau cywir.

Ar adegau gofynnir i'r plant ddod a phethau i'r ysgol fel rhan o waith dosbarth.

**CA2**

Rhoddir gwaith cartref dwy neu dair gwaith yr wythnos. Ni ddylai'r gwaith gymryd mwy na rhyw hanner awr i'w orffen.
Rhoddi'r amrywiaeth o waith gan gynnwys gwaith yn y pynciau craidd sef Mathemateg, Cymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth.
Rhaid i'r gwaith cartref gael ei gyflwyno mewn llyfr neu ffeil – ni dderbynir darnau o bapur. Disgwylir i'r gwaith gael ei gyflwyno'n ddestlus ac yn raenus bob amser. Rhaid dod â'r gwaith cartref i'r ysgol ar y diwrnod priodol.
Rhan bwysig o waith cartref rydym yn ei feithrin yn yr ysgol yw darllen cyson rheolaidd. Caiff y plant eu hannog i fynd a'u llyfrau darllen adre' bob nos ac yn yr un modd ceisiwn gael y rhieni i ddangos diddordeb trwy ddarllen gyda nhw o bryd i'w gilydd ac arwyddo'r ffurflen briodol.
Credwn fod gwaith cartref yn rhan bwysig o waith yr ysgol ac yn ddisgyblaeth dda wrth baratoi'r plant erbyn mynd i'r ysgolion cyfun. Eto rhywbeth gwirfoddol ydyw. Os nad ydych yn dymuno i'ch plentyn wneud gwaith cartref danfonwch lythyr i'r ysgol yn nodi hynny. Gwahoddwn eich sylwadau pan fyddwch yn credu fod y gwaith cartref yn anaddas.

## *Rheolau'r Ysgol a Disgyblaeth*

Mae pob cymuned angen rheolau clir y gellir eu gorfodi er mwyn amddiffyn pobl ac eiddo ac I sicrhau trefniadau effeithlon. Cedwir rheolau'r ysgol I'r nifer lleiaf posibl ac ment yn seiliedig yn bennaf ar barch tuag at eraill. Lle bynnag y mae patrwm o ymddygiad annerbyniol, bydd y disgyblion yn cael eu disgyblu. Mewn achosion difrifol bydd y rhieni yn cael eu galw I'r ysgol a bydd disgwyl I'r rhieni I gydweithredu gyda'r ysgol wrth orfodi safonau ymddygiad derbyniol.
Mae rheolau yn bodoli er mwyn diogelu'r plant ac i sicrhau eu diogelwch. Gallwn arbed damweiniau a digwyddiadau annymunol trwy ddilyn y rheolau syml.
Anogir y plant i werthfawrogi'r angen am reolau oherwydd bydd hyn yn datblygu hunan-reolaeth.
Os oes angen 'cosbi' plentyn yna gwneir hyn trwy ei wahardd rhag cymryd rhan mewn rhywbeth sydd o ddiddoreb iddo.

Os fydd y drosedd yn un ddrwg yna fe fydd angen cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r cartref i ddelio â'r broblem.

**Enghreifftiau o Reolau'r Ysgol:**

- Am resymau diogelwch anogwn y plant i beidio â gwisgo tlysau heblaw am oriawr.
- Os yw'r tywydd yn rhesymol yna bydd y plant yn chwarae allan yn ystod egwyl ac amser cinio os na roddwyd gorchymyn gwahanol.
- Pan fydd y tywydd yn anffafriol bydd y plant yn aros yn y dosbarthiadau amser egwyl a'r awr ginio.
- Disgwylir i'r plant ymddwyn yn gyfrifol a chwrtais.
- Does neb i chwarae yn y toiledau.
- Mae'n ddyletswydd ar bob plentyn i dynnu sylw'r athrawon neu'r goruchwylwyr os fydd problem.
- Ni chaniater losin na gwm cnoi yn yr ysgol.
- Rhaid i'r plant gerdded yn dawel trwy'r ysgol.
- Mae'n ddyletswydd ar i bob plentyn gadw'r ysgol yn lân.
- Disgwylir safon uchel o ymddygiad oddi wrth bob plentyn.

## *Trefniadau Anghenion Dysgu Ychwanegol*

Dysgir Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn eu dosbarthiadau, er y byddant weithiau yn cael eu tynnu allan i weithio mewn grŵpiau llai gyda'r Cydlynydd Addysg Arbennig neu'r Cynorthwywyr Dosbarth. Bydd Cydlynydd Anghenion Arbennig yr ysgol yn ymgynghori'n agos gyda'r Athrawon Dosbarth i sicrhau bod sylw a chefnogaeth yn cael ei roi i anawsterau'r plentyn o fewn i gyd-destun y cwricwlwm. Bydd gan y mwyafrif o ddisgyblion ar gofrestr ADY yr ysgol dargedau wedi eu gosod ar eu cyfer yn y Cynllun Addysg Unigol. Defnyddir nifer o strategaethau i gefnogi'r disgyblion sydd ag anhawsterau dysgu i gwrdd â'r targedau hynny dros gyfnod o amser – gwaith gwahaniaethol sy'n addas i'w gallu; gwaith mewn grŵpiau bach; sylw unigol; cymorth Cynorthwyydd Dysgu; cael sylw tu allan i'r dosbarth mewn grŵp; …Anogir yr holl ddisgyblion i gymryd rhan lawn a gweithredol yn holl weithgareddau'r ysgol. Gofynnir am ganiatâd, cefnogaeth a chydweithrediad y rhieni yn yr holl drefniadau. Cofnodir datblygiad pob plentyn yn fanwl o'r diwrnod cyntaf. Os fydd athrawes y Dosbarth Derbyn yn sylweddoli bod plentyn yn cael trafferthion a'i waith yna fe fydd yn trafod hyn â'r Cydlynydd Anghenion Addysg Arbennig. Caiff trefniadau eu gwneud i sicrhau cymorth i'r plentyn. Pan fydd y plentyn yn cael trafferthion difrifol yna cysylltir â gwasanaeth seicolegol yr Awdurdod Addysg. Gwneir hyn ar ôl trafod y mater yn drwyadl â'r rhieni. Ni wneir unrhyw drefniadau heb ganiatad y rhieni.

## *PLANT MEWN GOFAL*

Y Pennaeth yw'r aelod staff dynodedig sydd yn gyfrifol am y disgyblion sy'n derbyn gofal. Dilynir canllaw "Gwneud Gwahaniaeth" Llywodraeth Cymru. Mae copi o 'Polisi Plant Mewn Gofal' ar gael o'r ysgol os dymunir.

## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Penderfynwyd gan y Llywodraethwyr nad yw addysg rhyw i'w ddysgu fel pwnc ar ben ei hun. Yn hytrach fe gyflwynir y maes yma fel rhan naturiol o'r cwricwlwm yn y themau mwyaf priodol e.e. 'Pobl', a 'Phethau Byw'. Mae Nyrs yr ysgol yn cyflwyno agweddau sensitif o'r pwnc i ddisgyblion Blwyddyn 6.

## Polisi Cyffuriau Ac Alcohol

Caiff agweddau perthnasol o'r rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol sy'n delio a chyffuriau ei gyflwyno i'r plant gan yr athrawon dosbarth. Bydd y cynnwys wedi ei addasu yn unol ag oed a gallu'r disgyblion. Bydd Swyddog Cyswllt Heddlu Dyfed-Powys yn dod i fewn yn achlysurol i'r ysgol i gyflwyno agweddau o'r pwnc hefyd.

## ASESU

Bydd yr holl ddisgyblion yn cael eu gwaith wedi'i asesu'n barhaol drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Dechreuir proffil ar y plentyn o'r diwrnod cyntaf y mae ef/hi yn dechrau yn yr ysgol ac ynddo cedwir yr holl wybodaeth yn ymwneud â chynnydd y plentyn. Cofiwch siarad â'ch plentyn am ei g/waith ysgol. Dengys hyn bod gennych ddiddordeb yn eu haddysg. Rhoddir adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd a gall y rhieni gadw'r rhain.
Mae dwy elfen i Asesiad y Cwricwlwm Cenedlaethol:

a) Asesiad athro
b) Asesiad Allanol ar ffurf profion safonol, yn unol â gofynion y Cytundeb Asesu rhwng yr ysgol a'r Awdurdod Addysg Lleol.

## Goruchwyliaeth

Goruchwylir y plant trwy gydol y dydd. Yn ystod gwersi yr athro dosbarth sydd yn gyfrifol. Mae athrawon, yn eu tro, yn goruchwylio y plant chwarter awr cyn naw o'r gloch a thra bod y plant yn gadael ar ddiwedd y prynhawn.

Bydd athrawon a staff cynorthwyol yn eu tro, yn goruchwylio'r plant amser egwyl.
Yn ystod yr awr ginio bydd yr arolygwyr amser cinio yn gyfrifol am ddiogelwch y plant. Byddant yn atebol i'r pennaeth.

## *Damweiniau*

Pan ddigwydd damwain, y person ar ddyletswydd sy'n gyfrifol am weld i'r plentyn. Cedwir offer Cymorth Cyntaf mewn mannau cyfleus yn yr ysgol.
Bydd y person ar ddyletswydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd ac asesu os oes angen triniaeth meddyg lleol neu os oes angen mynd a'r plentyn i'r ysbyty.
Pob tro byddwn yn ceisio cysylltu â'r rhieni. Os na fydd hyn yn bosib yna bydd yr ysgol yn cymryd y cyfrifoldeb o fynd â'r plentyn at y meddyg neu i'r ysbyty os fydd y rhiant wedi rhoi caniatad ar y ffurflen 'Derbyn Plant'.
Hysbysir y rhieni o'r hyn a ddigwyddodd a'r camau a gymerwyd.
Llenwir ffurflen os digwydd damwain lle mae angen cysylltu â`r rhieni, meddyg neu fynd i`r ysbyty. Caiff damweiniau eu cofnodi ar ffurflen ddamweiniau. Caiff plentyn nodyn pwrpasol i rhoi i'w rhieni os fydd y ddamwain yn un sydd angen cadw sylw arno: e.e: anaf i'r pen.

## *Tostrwydd*

Pan fydd plentyn yn dost yn ystod y dydd gwnawn bob ymdrech i gysylltu a'r rhieni. Ni ddanfonir plentyn gartref os na fedrwn gysylltu a'r rhieni neu aelod o'r teulu neu ffrindiau.
Disgwylir i'r rhieni neu'r gwarchodwr gasglu'r plentyn o'r ysgol os yn bosib. Taer erfynnir ar i rieni i beidio danfon plant i'r ysgol pan fyddant yn dost. Ni ddylai'r un plentyn fod yn yr ysgol os nad yw yn ddigon da i ddilyn y gwersi.

## *Absenoldeb*

Gosododd y llywodraeth reolau pendant ynglyn ag absenoldau. Mae dau brif gategori o absenoldebau sef bod yn absennol a chaniatâd neu absenoldeb heb ganiatad. Os fyddwch yn gwybod ymlaen llaw na fydd eich plentyn yn yr ysgol am ryw reswm yna cysylltwch â'r ysgol fel y medrwn gofnodi'r absenoldeb fel un â chaniatad.

Ar ôl cyfnod o absenoldeb dylai rhieni ddanfon nodyn yn egluro'r rheswm am yr absenoldeb. Ni chaniateir i unrhyw blentyn i adael yr ysgol yn gynnar heb fod y rhieni wedi cysylltu â'r ysgol trwy lythyr neu alwad ffôn.

Pan fydd plentyn yn symud o Ysgol Y Tymbl i ysgol arall dylid rhoi`r wybodaeth briodol i'r prifathro er mwyn trosglwyddo'r cofnodion.

## *Meddygol A Moddion*

Os yw eich plenty yn sâl ac yn methu aros yn yr ysgol, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Gwnewch yn siŵr bod gennym eich rhif ffôn presennol er mwyn cysylltu gyda chi pe bai angen.
Ni chedwir moddion na thabledi yn yr ysgol.
Os yw'n ddymuniad gan riant i'r athro roddi moddion i'r plentyn yna dylid llenwi'r ffurflenni priodol.

## *GWASANAETH IECHYD*

Bydd aelodau o'r Gwasanaeth Iechyd yn talu ymweliadau â'r ysgol. Rhoddir gwybodaeth i'r rhieni am yr ymweliadau hyn.

## *CYDWEITHREDIAD RHIENI*

Cymhellir rhieni i gysylltu â'r ysgol pan fydd problemau perthnasol ganddynt i'w trafod. Cynghorir chi i gysylltu â'r prifathro er mwyn gwneud trefniadau priodol. Trafodir materion â'r rhieni tu allan i oriau'r ysgol, os yn bosib, oherwydd bod yr athrawon a chyfrifodeb dosbarth trwy'r dydd. Os fydd rhaid talu ymweliad brys â'r ysgol yna dylid mynd at y prifathro yn gyntaf.

Dylai'r rhieni, sy'n dod a phlant i adran y babanod, ddefnyddio'r drws ar yr ochr yn hytrach na cherdded drwy'r ysgol.

Bydd y plant, ar y cyfan, yn ymgartrefi yn rhwydd yn yr ysgol. Felly ar ôl yr wythnos gyntaf dylai'r rhieni adael eu plant wrth y drws a mynd o'r ysgol cyn gynted ag sydd bosib. Bydd hyn yn galluogi'r plant i fagu hunan hyder a'u hannog i gymysgu â'r plant eraill.

## *Cwynion*

Dyma'r camau mwyaf effeithiol:-

1. Dylai mân gwynion gael eu trin gan yr Athro Dosbarth. Os na chewch eich bodloni gan yr ymateb dylech gysylltu gyda'r Pennaeth.
2. Rhaid i bob cwyn difrifol gael eu dwyn i sylw'r Pennaeth fel y gellir cynnal ymchwiliad.

3. Os ydych yn reimlo nad yw eich cwyn wedi'i datrys, mae croeso i chi gysylltu gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr. Mae ei henw a'i rhif ffôn ar gael oddi wrth Y Pennaeth. Mae gan yr ysgol Bolisi Cwynion - mae copi ohono ar gael ar eich cais.

## *Cinio'r Ysgol*

Mae safon y bwyd yn uchel iawn ac mae'n cael ei baratoi ar y safle. Mae'r fwydlen yn un amrywiol sydd wedi ei pharatoi gan yr awdurdod. Mae'r ysgol yn defnyddio parentpay.com fel modd talu ar-lein. Caiff y cyfan ei esbonio yn ystod y cyfarfod cyntaf. Mae gan bob plentyn hawl i ginio am ddim ar hyn o bryd. Bydd y plant sy'n dod a brechdanau, yn bwyta yn y neuadd fwyta ginio hefyd. Peidiwch rhoi diod i'ch plentyn mewn potel wydr na danfon dim byd sydd yn dwym. Bydd staff goruchwylio yn goruchwylio'r plant yn y neuadd fwyta. Rhaid i'r plant ymddwyn yn dda tra yng ngofal y goruchwylwyr amser cinio a dangos eu bod yn gwybod y ffordd i fwyta'n gywir.

## *FFRWYTHAU*

Rhoddir cyfle i'r plant i brynu ffrwythau yn yr ysgol. Bydd hwn yn cael ei dalu drwy Parentpay unwaith bob tymor. Mi fyddwch yn derbyn ebost i'ch atgoffa i dalu. Trosglwyddir yr elw i Gronfa'r Ysgol sydd wedi ei sefydlu er budd y plant. Mae peiriant darparu dŵr yfed yn yr ysgol i'r plant ei ddefnyddio yn ôl yr angen.

## *GWISG YSGOL*

Dewiswyd gwisg swyddogol i'r ysgol ar gais rhieni. Does dim gorfodaeth i wisgo'r wisg. Eto, yn ystod cyfarfodydd rhieni taer erfynnir arnom, fel athrawon, i gymell y plant i wisgo'r dillad swyddogol. Erbyn hyn mae bron pob plentyn yn gwisgo'r dillad priodol yn gyson. Pan fyddwn yn cymryd rhan mewn cyngherddau neu eisteddfodau rhaid i'r plentyn wisgo gwisg swyddogol yr ysgol.

| **Merched a Bechgyn** |
| --- |
| Crys Polo Coch |
| Siwmper,Cardigan neu Hwdi'r Ysgol |
| Sgert / trowsus du/llwyd / 'Joggers' |

| |
|---|
| Sanau neu theits gwyn/llwyd/du |
| Esgidiau Du |

Yn ystod tymor yr haf cymhellir plant i wisgo dillad ysgafn sy'n cydymffurfio â lliwiau'r ysgol. Medrwch brynu'r dillad ar lein drwy Eirllin.

**Dylai pob darn dillad fod ag enw'r plentyn arno.**

Bydd angen dillad priodol ac esgidiau addas ar y plant i gymryd rhan yn y gwersi ymarfer corff a chwaraeon. Cynhelir y gwersi ar gyfnodau penodol yn ystod yr wythnos ac fe hysbysir y rhieni o hyn. Bydd pob plentyn yn cymryd rhan yn y wers os na fydd y rhieni wedi danfon llythyr i ddweud yn wahanol.

## *Nofio*

Bydd y plant yn CA2 yn mynd i'r pwll nofio i gael gwersi nofio. Ni fydd unrhyw gost ar rhieni. Rhaid i'r plant ddod a'u dillad priodol gan gynnwys cap nofio. Y plant fydd yn gyfrifol am edrych ar ôl eu dillad a'u bagiau.

## *Gwersi Cerddoriaeth - Offerynnol*

Rydym yn ffodus i gael ymweliadau wythnosol gan athrawon teithiol i ddysgu'r plant i chwarae recorders, offer pres ac offer taro. Mae'r gwersi yn ddi-dâl i'r plant ond mae yn golygu cost ychwanegol ar yr ysgol.
Felly os fydd eich plentyn yn cymryd mantais o'r cyfle yma yna fe fydd yn ddyletswydd arnoch i sicrhau bod y plentyn yn ymarfer yn gyson. Mae nifer o offerynnau yn yr ysgol.
Cyfrifoldeb rhieni'r plant fydd edrych ar ôl yr offerynnau. Pan fydd plentyn wedi dechrau ar wersi offerynnol, byddwn yn disgwyl iddo/iddi fynychu'r gwersi am o leiaf blwyddyn ysgol cyn penderfynu rhoi'r gorau iddi. Rhaid wrth ymdrech a theyrngarwch.

## *POLISI CODI TÂL*

Nid ydym fel ysgol yn codi tâl ar ddisgyblion er mwyn iddynt dderbyn gwersi offerynnol. Mae holl weithgareddau'r ysgol i ddisgyblion yn ddi-dâl ar wahan i gyfraniadau rhieni tuag at ymweliadau addysgiadol a chostau cludiant.

## *GWEITHGAREDDAU ALL-GYRSIOL*

Rydym yn ysgol weithgar iawn ac yn lledaenu profiadau'r plant cymaint ag sydd yn bosib. Gwneir hyn trwy nifer o weithgareddau all-gyrsiol. Yn eu plith mae:

- **Yr Urdd**
  Bydd plant yr adran Iau yn cyfarfod wythnosol – ar ddydd Mawrth fel arfer – rhwng 3:30 a 4:15 o'r gloch. Ceir amrywiaeth o weithgareddau. Caiff plant Blynyddoedd 5 a 6 plant gyfle i fynychu Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog.

- **Chwaraeon**
  Byddwn yn chwarae yn erbyn ysgolion eraill mewn chwaraeon fel pel-rwyd, rygbi, pel-droed, criced a rownderi. Mae Clwb i blant hŷn yn yr adran Iau bob pnawn Mercher tan 4:15 y.p.
  Rydym yn annog y plant i gymeryd rhan yng ngweithgareddau Actif Sir Gâr trwy waith cwricwlaidd a'r Clwb Chwaraeon.
  Fel ysgol credwn yn gryf mewn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymeryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon a gweithgareddau fydd yn gwella'u sgiliau, yn helpu i wella'u ffitrwydd tra ar yr un pryd yn rhoi pleser a mwynhâd iddynt.

- **Cystadlaethau holi**
  Bydd y plant hŷn yn cymryd rhan mewn cystadlaethau a drefnir gan yr heddlu, llyfrgell, Yr Urdd a'r Adran Ddiogelwch.

- **Cyngherddau**
  Trefnir cyngherddau yn yr ysgol ac fe fyddwn fel ysgol yn cael gwahoddiadau gan gymdeithasau o fewn y gymuned i ddarparu adloniant. Rhown ddigon o gyfle i blant feithrin eu doniau diwylliannol.

- **Nosweithiau Agored**
  Gwahoddir rhieni i'r ysgol i drafod datblygiad eu plant eu hunain neu i drafod polisiau cyffredinol yr ysgol. Apeliwn ar i'r mamau beidio gwisgo esgidiau a sodlau main pan yn ymweld â'r ysgol. Mae polisiau o beidio smygu nac yfed alcohol yn cael eu gweithredu yn yr ysgol.

- **Cymhwyster Beicio**
  Trefnir cwrs 'Diogelwch ar y Beic' i'r plant ym Mlwyddyn 6 yn nhymor yr haf.

- **Perfformiadau Theatrig**

Gwahoddwn gwmnïau theatr i'r ysgol yn gyson. Rhydd hyn gyfle i'r plant gymysgu ag actorion proffesiynol ac i gymryd rhan yn y gweithgareddau ymarferol. Daw cwmnïau i berfformio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- **Cyngor Ysgol a Phwyllgor Eco-Sgolion**
  Mae disgyblion wedi'u cynrychioli ar y Cyngor a'r pwyllgor Eco-Sgolion gan gyd-weithio gyda'r athrawon ar gynlluniau gwella'r ysgol. Ceisiant sicrhau bod yr ysgol yn datblygu fel Eco-Ysgol lle mae llawer o bwyslais ar hybu materion amgylcheddol.

- **Menter Ysgol Iach**
  Rydym fel ysgol wedi llwyddo i ennill statws 'Ysgol Iach' dan fenter Ysgolion Iach Cyngor Sir Gaerfyrddin. Rydym yn addysgu'n disgyblion ac yn eu hannog i fyw'n iach.

## *Ymweliadau Addysgiadol a Gweithgareddau Ysgol*

Trefnir ymweliadau i gyfoethogi profiadau'r plant ac i gyd-fynd a rhaglen astudio'r tymor. Byddwn yn gofyn i rhieni arwyddo'u caniatad cyn y gall plentyn fynd ar ymweliad allan o'r ysgol. Oherwydd bod angen talu am drafnidiaeth a mynediad byddwn yn gofyn i'r rhieni am gyfraniad ariannol.
Rydym wedi ymweld a nifer o fannau diddorol yn ddiweddar sy'n darparu profiadau gwerthfawr i blant:

| | |
|---|---|
| Castell Henllys | Fferm Ffoli |
| Llancaiach Fawr | Stadiwm Y Mileniwm |
| Caerleon | Penclacwydd |
| Sain Ffagan | Parc Heatherton |
| Rheilffordd Gwili | Cadbury World |
| Black Country Living Museum | Ogofau Dan yr Ogof |
| Yr Ardd Fotaneg | Fferm Tyreglwys, Llangennech |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Pwll Mawr, Blaenafon |
| Canolfan Treftadaeth Y Rhondda | Canolfan Techniquest, Bae Caerdydd |

Mae'r ysgol yn cynnal cyngherddau a sioeau yn rheolaidd gan gynnwys ein Eisteddofd blynyddol ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Anogir pob disgybl i gymryd rhan yn y profiadau amrywiol hyn.

## *BRECWAST AM DDIM*

Mae'r ysgol yn rhan o'r cynllun Brecwast Am Ddim. Manteisiwch ar hyn.

## *CRONFA'R YSGOL*

Gosodir unrhyw arian a dderbyniwn yng nghronfa'r ysgol. Prif ffynhonnell o godi arian yn yr ysgol yw trwy werthu ffrwythau ynghyd â threfnu gwahanol weithgareddau fel cyngherddau, disgos neu weithgaredd noddedig. Defnyddir yr arian er budd y plant i brynu adnoddau ychwanegol neu i drefnu gweithgareddau.

## *CYMDEITHAS RHIENI A FFRINDIAU'R YSGOL*

Fel ysgol gwerthfawrogwn gyfraniad a chefnogaeth y gymdeithas hon. Fel canlyniad i'w hymdrechion llwyddwyd i brynu offer gwerthfawr i'r ysgol.
Mae'r pwyllgor yn un cyfansoddiadol ac yn cael ei ethol yn flynyddol. Cyhoeddir y fantolen ariannol yn flynyddol. Bydd y pwyllgor yn trefnu gweithgareddau amrywiol.

## *Yr Ysgol a'r Gymuned*

Derbyniwn fod yr ysgol yn rhan allweddol o'r gymdeithas. Byddwn yn cysylltu ein hunain ac yn uno yng ngweithgareddau'r pentref yn gyson. Cynorthwywn y gwahanol gymdeithasau trwy eu diddori, benthyca offer neu gynnig cyngor. Gwerthfawrogwn yn fawr y gefnogaeth a'r cyfeillgarwch rydym yn derbyn oddi wrth y cymdeithasau, a mudiadau fel y capeli, y Cyngor Cymuned a Mudiad yr Henoed. Mae pobl busnes y pentref yn garedig ac yn hael tuag atom trwy adael i ni ymweld â hwy ac hefyd trwy gefnogaeth ariannol.

Mae perthynas agos rhyngom â Chymdeithas Bryntawel a Darren Las ac hefyd a'r cymdeithasau sy'n cwrdd yn rheolaidd yn Neuadd Y Tymbl.
Erbyn hyn mae gennym berthynas agos a staff Parc Coetir Mynydd Mawr ac Ysgolion Coedwig Sir Gâr. Nid yw'r uchod yn cynnwys yr holl wybodaeth am yr ysgol. Yr amcan ydoedd dangos ein bod yn uned broffesiynol a gweithgar sy'n gosod anghenion y plentyn fel ein prif nôd.

Rydym yn awyddus i weithio gyda chi'r rhieni yn ogystal â`r dasg bwysig o addysgu eich plentyn. Mae'n holl bwysig fod y cartref a'r ysgol yn cydweithio yn effeithiol os yw'r plentyn yn mynd i ddatblygu i'w lawn botensial.
Bellach mae'n angenrheidiol i'r rhieni a'r ysgol i arwyddo cytundeb o bartneriaeth. Mae'r **Cytundeb Cartref Ysgol** yn sail i'r bartneriaeth yma.

Fe addasir y prosbectws pan fydd galw arnom i wneud hynny. Pan gynhelir cyfarfodydd cyffredinol ceir cyfle i drafod ac addasu rheolau neu faterion sy'n

allweddol i addysg y plant. Ymfalchiwn fod naws deuluol hapus yn Ysgol Y Tymbl.

Ein nôd yw parhau i ddatblygu'r naws a'r ethos yma. Gwneir hyn trwy agwedd broffesiynol staff yr ysgol a chefnogaeth adeiladol rhieni a ffrindiau'r ysgol.

**Yn olaf . . .**
Mae'r ysgol yn ysgol liwgar, fywiog, brysur a chyffrous. Mae gennym staff ymroddgar iawn sy'n gweithio'n ddiwyd i ddarparu ar gyfer yr holl ddisgyblion y cychwyn gorau posibl ar eu gyrfa ddysgu gydol oes.

**A chofiwch . . .**
Mae pob plentyn yn wahanol. Maent yn edrych yn wahanol, yn ymddwyn yn wahanol ac yn datblygu ar wahanol adegau a chyfraddau. Maent hefyd yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol. Er eu lles hwy, peidiwch â'u cymharu gyda phlant eraill.

**Rydym yn falch iawn o gael eich teulu chi gyda ni.**
**Rydym yn gobeithio y byddwch oll yn hapus yn ein hysgol.**

## *CYTUNDEB CARTREF YSGOL*

| | **RHIENI**<br><br>**Fel rhiant byddaf yn gwneud fy ngorau i…** | **PLENTYN**<br><br>**Fel disgybl byddaf yn gwneud fy ngorau i…** | **YSGOL**<br><br>**Fel ysgol byddwn yn gwneud ein gorau i…** |
|---|---|---|---|
| **Bod yn barod i'r ysgol** | ..ddanfon fy mhlentyn i'r ysgol yn lân a thaclus ac mewn gwisg ysgol os yw'n bosibl. | ..gadw fy hun yn lân a thaclus a gwisgo fy ngwisg ysgol os yn bosib. | ..hyrwyddo gwisgo'r wisg ysgol swyddogol a glendid a thaclusrwydd personol. |
| **Presenoldeb/ Prydlondeb** | ..sicrhau fod fy mhlentyn yn bresennol ac yn brydlon bob dydd. | ..fynychu'r ysgol yn feunyddiol ac yn brydlon. | ..annog presenoldeb a phrydlondeb bob amser. |
| **Gwaith dosbarth a Gwaith Cartref** | ..gymeryd diddordeb gweithredol yng ngwaith fy mhlentyn a'i gefnogi tra'n ei wneud.<br>..annog fy mhlentyn i wneud ei orau.<br>..sicrhau fod fy mhlentyn yn gwneud ei waith cartref yn rheolaidd. | ..wrando ar fy athro a gweithio'n galed.<br><br>..wneud yn siwr fy mod yn gwybod yn union beth yw'r dasg gwaith cartref cyn gadael yr ysgol, ei wneud a'i ddychwelyd yn brydlon ac yn daclus. | ..ddysgu'n effeithiol ac yn bwrpasol.<br><br>..baratoi eich plentyn mewn ystod eang o destunau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer ei ddyfodol.<br>..osod gwaith pwrpasol a'i farcio'n ystyrlon ac yn rheolaidd.<br>…osod gwaith cartref addas. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ymddygiad** | ..annog fy mhlentyn i feithrin safonau uchel o ymddygiad bob amser. | .. ymddwyn yn dda o fewn a thu allan i'r ysgol.<br>…ddilyn a chadw at rheolau'r ysgol. | ..annog safonau uchel o ymddygiad bob amser yn unol a rheolau'r ysgol. |
| **Cymorth Bugeiliol** | …hysbysu'r ysgol os oes yna broblem sy'n debygol o effeithio ar addysg fy mhlentyn. | ..adael fy athro wybod os oes unrhyw ofidiau gennyf cyn gadael yr ysgol ar ddiwedd y dydd. | …wrando ar, ac ymateb i broblemau neu ofidiau ar unwaith. |
| **Cysylltiadau cartref/ ysgol** | ..gytuno â chynnwys Prospectws yr ysgol.<br>..fynychu cyfarfodydd rhieni.<br>…ddarllen llythyron o'r ysgol ac ymateb iddynt os oes angen.<br>..gefnogi'r ysgol a'i rheolau lle bo angen. | ..i ddangos pob llythyr a rhoddwyd i mi gan yr ysgol, i'm rhieni. | ..gynnal cyfarfodydd rhieni yn rheolaidd.<br>…adrodd yn rheolaidd ar ddatblygiad, presenoldeb a phrydlondeb eich plentyn yn yr ysgol.<br>..eich hysbysu am unrhyw ofidiau sydd gennym ynglyn a'ch plentyn.<br>..weithredu polisi 'drws-agored' |
| **Bywyd allgyrsiol yr ysgol** | ..gefnogi gweithgareddau sydd yn yr ysgol. | ..fanteisio ar y cyfleoedd sy'n agored i mi yn yr ysgol e.e. chwaraeon, gwersi offerynnol, cyngherddau. | .. hysbysu rhieni am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal neu mae'r ysgol yn rhan ohonynt. |